

FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUNED - DYDD LLUN, 22 MEDI 2025

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUNED A GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFEYDD DINESIG STRYD YR ANGEL PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4BW / O BELL TRWY MICROSOFT TEAMS AR DYDD LLUN, 22 MEDI 2025 16:00

Presennol

Y Cyngorydd JC Spanswick – Cadeirydd

H T Bennett
N Farr
I M Spiller
E Davies
A Le Geyf

S J Bletsoe
P Ford
MJ Williams
G Chappell
Y Walton

C Davies
RM Granville
E D Winstanley
E Jones

M J Evans
M R John
J Gebbie
M Rock

Swyddogion:

Jake Morgan
Jason Frowen
Rachel Keepins
Louise Connolly
Carys Lord
Alex Rawlin
Nimi Chandrasena
Oscar Roberts

Prif Weithredwr
Swyddog Cyswllt Tref a Chymuned
Rheolwr Gwasanathau Democrataidd
Rheolwr Trosglwyddo Asedau Cymunedol
Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid
Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol
Swyddog Gwasanathau Democrataidd
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro – Pwyllgorau

36. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y penderfyniad a wnaed	Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorydd T Wood
Dyddiad gwneud y penderfyniad	22 Medi 2025

37. Datganiadau o fuddiant

Y penderfyniad a wnaed	Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	22 Medi 2025

38. Cymeradwyaeth Cofnodion

Y penderfyniad a wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Fforwm Cyngor Tref a Chymuned dyddiedig 29 Gorffennaf 2024 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	22 Medi 2025

39. Perthnasoedd Gwaith yn y Dyfodol gyda Chynghorwyr Tref a Chymuned

Y penderfyniad a wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Prif Weithredwr, oedd ystyried a symud ymlaen gyda chydweithio rhwng yr Awdurdod Lleol (yr Awdurdod) a Chynghorau Tref a Chymuned (CTCh) er mwyn sicrhau bod gwasanaeth lleol effeithiol yn cael ei ddarparu yn y dyfodol. Gofynnodd yr aelodau gwestiynau am y canlynol: • Pa broblemau y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar eu datrys. • Heriau cyfathrebu rhwng Cynghorau Tref a Chymuned a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP). Cafodd y cwestiynau hyn eu hateb gan yr Arweinydd, y Prif Weithredwr a Rheolwr Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Codwyd Cytundeb Lefel Gwasanaeth fel awgrym o ffordd bosibl ymlaen er mwyn sicrhau y gall Cynghorau Tref a Chymuned a CBSP gyfathrebu'n effeithiol ac yn fuan. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Fforwm wedi ystyried a gwneud sylwadau a chynigion ynghylch:
------------------------	--

FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUNED - DYDD LLUN, 22 MEDI 2025

	a)	darparu gwasanaeth lleol yn y dyfodol a sut i symud ymlaen gyda chydweithio'n effeithiol rhwng yr Awdurdod a Chynghorau Tref a Chymuned.
	b)	dyfodol Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	22 Medi 2025	

40. Diweddariad ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2026-27 i 2029-30

Y penderfyniad a wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid, oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned am y broses a'r amserlenni ar gyfer cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) 2026-27 i 2029-30, a chyllideb y Cyngor ar gyfer 2026-27 yn neilltuo. Hysbyswyd y Pwyllgor hefyd am yr angen i Gynghorau Tref a Chymuned hysbysu'r Cyngor an eu praesept erbyn 9 Ionawr 2026, gan amlinellu'r angen i'r Cyngor a'r Cynghorau Tref a Chymuned gydweithio'n agosach o fewn amserlen yr ychydig fisoedd nesaf. Gofynnodd yr aelodau gwestiwn ynghylch a allai newidiadau gwleidyddol yn Llywodraeth Cymru effeithio ar y broses o osod y gyllideb. Atebwyd y cwestiwn hwn gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned yn nodi'r diweddariad ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor 2026-27 i 2029-30 ac yn ymgysylltu'n weithredol â'r Cyngor ar gyfleoedd i ymgymryd â gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol i gynorthwyo gyda'r broses o gynllunio'r gyllideb.	
Dyddiad gwneud y penderfyniad	22 Medi 2025	

41. Hunanasesiad 2024/25

Y penderfyniad a wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol, oedd casglu barn Cynghorau Tref a Chymuned am yr hunanasesiad drafft ar gyfer 2024/25 oedd wedi ei gynnwys yn
------------------------	---

FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUNED - DYDD LLUN, 22 MEDI 2025

	Atodiad 1 a'r wybodaeth am berfformiad oedd yn gysylltiedig yn Atodiad 2. Rhoddodd yr aelodau sylwadau ar yr adroddiad, gan nodi y gellid cynyddu'r targedau amcangyfrifedig ar gyfer plannu coed er mwyn gosod nodau heriol i'r Cyngor. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod Fforwm y Cyngorau Tref a Chymuned wedi ystyried yr adroddiad am yr Hunanasesiad drafft 2024/25 yn Atodiad 1 ynghyd â'r wybodaeth am berfformiad yn Atodiad 2.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	22 Medi 2025

42. Materion Brys

Y penderfyniad a wnaed	Dim.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	22 Medi 2025

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau am:

- Statws yr Adolygiad Ffiniau ar hyn o bryd ac a ellid paratoi nodyn briffio ar y pwnc i'w ddosbarthu i Gyngorau Tref a Chymuned.

Atebwyd y cwestiynau hyn gan yr Arweinydd. Cytunwyd y dylid ymgynghori â'r Swyddog Monitro i sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud o fewn y cyfnod iawn o amser i gael eu hystyried gan Gomisiwn y Ffiniau.

PENDERFYNWYD: Cafodd yr holl eitemau brys a godwyd gan y Fforwm eu hystyried.

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 16:54